# CWIS GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU 1 (gydag atebion)

**1. Pa mor hen yw'r gair TIWTOR?** (Awgrym: edrychwch ar yr enghreifftiau o dan y diffiniad. Gallwch eu cuddio neu eu dangos drwy glicio ar '-' neu '+' ar ymyl de y sgrin.)

How old is the word TIWTOR? (Hint: look at the examples under the definition. You can hide or display them by clicking on '-' or '+' on the right hand side of the screen.)

**Ateb**/Answer: **Mae'n mynd yn ôl i 1551.** / It goes back to 1551.

**2. Ble mae CANTRE'R GWAELOD?** (Awgrym: Mae angen teipio 'Cantre'r Gwaelod' i'w ffeindio dan y gair *cantref*.)

Where is CANTRE'R GWAELOD? (Hint: You need to type 'Cantre'r Gwaelod' to find it under the entry for *cantref*.)

**Ateb**/Answer: **Darn o dir o dan Fae Ceredigion y dywedir iddo gael ei foddi dan y môr yn y chweched ganrif** / a tract of land underlying Cardigan Bay said to have been inundated in the sixth century.

**3. Sut mae dweud 'hung parliament' yn Gymraeg?** (Awgrym: Mae angen newid yr iaith chwilio i 'SAES' (yn yr ap) neu 'DIFFINIADAU SAESNEG' (ar gyfrifiadur) ar frig y sgrin i chwilio am eiriau Saesneg.

How do you say 'hung parliament' in Welsh? (Hint: You need to change the search language to 'ENG' (in the app) or 'ENGLISH DEFINITIONS' (on a computer) at the top of the screen when searching for English words.)

**Ateb**/Answer: **SENEDD GROG**

**4. O ba iaith y mae'r gair CASTELL yn dod?** (Awgrym: Bydd hofran dros y talfyriad 'bnth.'gyda'r llygoden neu dapio arno yn dangos ei ystyr.)

Which language is CASTELL derived from? (Hint: Hover over the abbreviation 'bnth.', near the top of the entry, with the mouse or tap it in the app to find out what it stands for.)

**Ateb**/Answer: **Lladin** / Latin.

**5. Beth oedd ystyr cynharaf CAWL?**

What was the earliest meaning of CAWL?

**Ateb**/Answer: **Bresych**, Saesneg 'cabbage'

**6. Mae croesair yn rhoi'r cliw 'math o lyfr' ac mae'r llythrennau G??R?A?U? gyda chi. Allwch chi ddefnyddio'r Geiriadur i helpu dod o hyd i'r ateb?** (Awgrym: Wrth chwilio yn y Geiriadur mae '?' yn cynrychioli unrhyw lythyren.)

A crossword gives you the clue 'a type of book' and you have these letters, G??R?A?U?. Can you use the Dictionary to help find the answer? ( Hint: When searching in the Dictionary, you can use '?' to represent any letter.)

**Ateb**/Answer: **GEIRIADUR**

**7. Allwch chi ddod o hyd i dri enw gwahanol am 'Welsh cake' neu 'Welsh cakes'?** (Awgrym: Mae angen newid yr iaith chwilio i 'SAES' (yn yr ap) neu 'DIFFINIADAU SAESNEG' (ar gyfrifiadur) ar frig y sgrin i chwilio am eiriau Saesneg.)

Can you find three different Welsh terms for a 'Welsh cake'? (Hint: You need to change the search language to 'ENG' (in the app) or 'ENGLISH DEFINITIONS' (on a computer) at the top of the screen when searching for English words.)

**Ateb**/Answer: **PIC (hefyd**/also **PICAU LAP, PICAU METH), TEISEN AR Y MAEN, TEISEN FACH, TEISEN GRI, SLASIERS, …**

**8. Ydy'r gair PLANT yn fenywaidd (b.) neu'n wrywaidd (g.)?**

Is the word PLANT feminine (**b**enywaidd) or masculine (**g**wrywaidd)?

**Ateb: Nid y naill na'r llall! Mae'n enw lluosog (e.ll.). Ond mae'r ffurf unigol, PLENTYN, yn enw gwrywaidd, boed yn cyfeirio at ferch neu fachgen.**

Neither! It's a plural noun (**e**nw **ll**uosog). But the singular form, PLENTYN, is a masculine noun, no matter whether it refers to a girl or a boy.

**9. O ba iaith y mae'r gair BRECHDAN yn dod?**

Which language is the word BRECHDAN derived from?

**Ateb**/Answer: **Gwyddeleg** / Irish

**10. Pryd cofnodwyd y term HUFEN IÂ gyntaf?** (Awgrym: Gallwch deipio 'ia' heb acen.)

When was the term HUFEN IÂ first recorded? (Hint: You can type 'ia' without the accent.)

**Ateb**/Answer: **1858**